WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu Da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau – **Cyngor Gwynedd**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 678A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Nigel Griffiths, Sian Clark, Andy Bruce a Non Jenkins dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd ar gyfer newid gwasanaethau'n gadarn ac yn gwella, gan gefnogi proses gwneud penderfyniadau effeithiol yn well.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 6

Adroddiad manwl

Mae trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd ar gyfer newid gwasanaethau'n gadarn ac yn gwella, gan gefnogi proses gwneud penderfyniadau effeithiol yn well 7

- Mae newidiadau i wasanaethau'n cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith mewn fframwaith strategol clir 7
- Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer penderfynu ar yr angen i newid gwasanaethau, a natur hynny, wedi'u diffinio'n glir a'u deall yn dda yn gyffredinol 8
- Mae achosion busnes wedi'u strwythuro'n dda ac yn addysgiadol, ond nid yw'r broses o adolygu a herio opsiynau darparu gwasanaethau gan bwyllgorau craffu bob amser yn amserol 8
- Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynhwysfawr ac yn amrywiol 10
- Mae trefniadau i fonitro, asesu ac adrodd ar effaith newidiadau i wasanaethau'n parhau i gryfhau 11
- Mae hunanasesiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar risg ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae llywodraethu'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, ar gyfer y bobl iawn, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus y maent yn atebol iddynt, yn ymgysylltu â nhw a, lle y bo'n briodol, yn arwain eu cymunedau.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae llywodraethu da'n hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Yn aml mae'r fath benderfyniadau yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt.

3 Ers mis Ebrill 2016, bu'n ofynnol i gynghorau gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Chanllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi'r canlynol: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan y Ddeddf gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio pwysigrwydd llywodraethu effeithiol i gyflawni nodau llesiant.

4 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau i wasanaethau. Rydym yn diffinio newid i wasanaethau fel unrhyw newid sylweddol i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiadau defnyddwyr gwasanaethau allanol o wasanaethau. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau i'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

[1] CIPFA/SOLACE Delivering Good Governance in Local Government: Framework 2007

[2] Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru

5 Gan gymryd fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer 'Delivering good governance in local government' fel safon briodol, mae'r adolygiad hwn yn darparu llinell sylfaen i'r Cyngor gynllunio rhagor o welliannau. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2016, ystyriwyd agweddau ar drefniadau gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag ystod o gynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau. Ymhlith y newidiadau i wasanaethau a ystyriwyd roedd:

- newidiadau i wasanaethau casglu gwastraff gweddilliol (na ellir ei ailgylchu); ac
- adolygu a moderneiddio llyfrgelloedd er mwyn darparu gwasanaethau addas at y diben mewn cyllideb weithredu lai.

Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o'r penderfyniadau unigol ynghylch newid gwasanaethau, ond yn hytrach eu defnyddio fel enghreifftiau i gyfeirio atynt a llywio'r ffordd y mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau ynghylch newidiadau i wasanaethau.

6 Daethom i'r casgliad bod **trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd ar gyfer newid gwasanaethau yn gadarn ac yn gwella, gan gefnogi proses gwneud penderfyniadau effeithiol yn well.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae newidiadau i wasanaethau'n cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith mewn fframwaith strategol clir;
- mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer penderfynu ar yr angen i newid gwasanaethau, a natur hynny, wedi'u diffinio'n glir a'u deall yn dda yn gyffredinol;
- mae achosion busnes wedi'u strwythuro'n dda ac yn addysgiadol, ond nid yw'r broses o adolygu a herio opsiynau darparu gwasanaethau gan bwyllgorau craffu bob amser yn amserol;
- mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynhwysfawr ac yn amrywiol;
- mae trefniadau i fonitro, asesu ac adrodd ar effaith newidiadau i wasanaethau'n parhau i gryfhau; ac
- mae hunanasesiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar risg ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus.

# Cynigion ar gyfer gwella

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn pennu'r meysydd gwella a nodwyd drwy ein hadolygiad.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| Gellid atgyfnerthu trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newidiadau sylweddol i wasanaethau drwy'r canlynol: | |
| C1 | Pwyllgorau craffu'n cael y cyfle i adolygu a herio achosion busnes newid gwasanaethau'n amserol cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad terfynol. |

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd ar gyfer newid gwasanaethau'n gadarn ac yn gwella, gan gefnogi proses gwneud penderfyniadau effeithiol yn well

### Mae newidiadau i wasanaethau'n cael eu cynllunio a'u rhoi ar waith mewn fframwaith strategol clir

7 Gweledigaeth y Cyngor – fel a bennir yn ei Gynllun Strategol 2013-17 – yw 'y gorau i bobl Gwynedd mewn cyfnod anodd'. Mae'r weledigaeth hon yn cynnwys ymrwymiad i 'drawsffurfio gwasanaethau i fod yn wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol'. Mae Cynllun Strategol 2013-17 yn cyfeirio'n benodol at bwysigrwydd materion trawsbynciol megis cynaliadwyedd, cydraddoldebau a'r Gymraeg wrth gyflawni gweledigaeth y Cyngor, cyflawni ei amcanion gwella, ac wrth newid a darparu gwasanaethau.

8 Mae cynigion newid gwasanaethau'n gysylltiedig â gweledigaeth y Cyngor drwy'r blaenoriaethau a'r amcanion gwella yng Nghynllun Strategol 2013-17 a/neu ofynion Cynllun Arbedion Effeithlonrwydd 2015-18. Mae prosiect llywodraethu'r cyngor, sef Ffordd Gwynedd, yn darparu'r fframwaith ar gyfer rhoi ei weledigaeth ar waith drwy ddatblygu diwylliant yn y Cyngor sy'n 'rhoi pobl Gwynedd wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud'.

9 Hefyd, gwneir newidiadau i wasanaethau'r Cyngor er mwyn cyflawni amcanion ehangach, megis gofynion statudol (targedau gwastraff cenedlaethol a safonau llyfrgelloedd). Mae'r newid mae wedi'i wneud i'w Wasanaeth Casglu Gwastraff Gweddilliol – gan symud i gasgliadau gwastraff cartref bob tair wythnos yn y Sir – yn cynnig helpu'r Cyngor i fodloni gofynion Strategaeth Llywodraeth Cymru, sef Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, yn ogystal â'r amcanion yn ei Gynllun Strategol 2013-17, Cynllun Arbedion Effeithlonrwydd 2015-18 a Strategaeth Wastraff 2010 - 2025: Mae newidiadau'r Cyngor i'w Wasanaeth Llyfrgelloedd yn cynnig helpu'r Cyngor i gydymffurfio â Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â chyflawni'r amcanion yn ei gynlluniau ei hun.

## Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer penderfynu ar yr angen i newid gwasanaethau, a natur hynny, wedi'u diffinio'n glir a'u deall yn dda yn gyffredinol

10 Ceir rheolau a gweithdrefnau, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli pob agwedd ar fusnes y Cyngor, yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Diweddarwyd y Cyfansoddiad ym mis Mai 2015 ac mae'n disgrifio strwythur proses gwneud penderfyniadau'r Cyngor gan gynnwys y Cyngor llawn, y Cabinet a phwyllgorau craffu. Mae hyn yn rhoi arweiniad clir ar rolau a dyletswyddau gwahanol swyddogion ac Aelodau yn y broses gwneud penderfyniadau.

11 Nid yw'r Cyngor wedi pennu gweithdrefnau penodol i'w dilyn wrth benderfynu ar newidiadau i wasanaethau yn ffurfiol. Fodd bynnag, mae swyddogion ac Aelodau'n hyddysg yn y fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd sydd yn y Cyfansoddiad ac yn gyffredinol glir ynghylch sut cymhwysir y rhain i'r broses gwneud penderfyniadau ym mhob agwedd ar fusnes y Cyngor, gan gynnwys newidiadau i wasanaethau.

12 Y Swyddog Monitro sy'n goruchwylio cydymffurfiaeth â'r Cyfansoddiad. Mae holl adroddiadau'r Cabinet, gan gynnwys rhai Deiliaid Portffolio ar newidiadau i wasanaethau, yn cael eu hadolygu gan y Swyddog Monitro er mwyn sicrhau y bodlonir gofynion cyfreithiol a chyfansoddiadol. Mae'r Swyddog Monitro, neu gynrychiolydd o'r Adran Gyfreithiol, yn Aelod o'r timau prosiect ar gyfer rhai o'r prosiectau newid gwasanaethau mawr, megis ad-drefnu ysgolion, lle mae materion cyfansoddiadol a/neu gyfreithiol sylweddol.

## Mae achosion busnes wedi'u strwythuro'n dda ac yn addysgiadol, ond nid yw'r broses o adolygu a herio opsiynau darparu gwasanaethau gan bwyllgorau craffu bob amser yn amserol

13 Mae achosion busnes newid gwasanaethau'n gynhwysfawr ac yn cynnwys ystod eang o wybodaeth, gan gynnwys opsiynau darparu, dadansoddiad ariannol a pherfformiad, ystyriaethau cynaliadwyedd, canlyniadau ymgynghoriadau, adroddiadau ymgynghorwyr, gofynion safonau ac asesiadau cydraddoldeb.

14 Er enghraifft, mae’r achos busnes ar gyfer y newidiadau i’r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gweddilliol yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr i helpu swyddogion ac Aelodau i wneud penderfyniad gwybodus. Mae’n cynnwys canfyddiadau adroddiad ymgynghorydd yn 2013 a gomisiynwyd dan Raglen Gweithredu’r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau Llywodraeth Cymru. Mae’r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad ailgylchu gwastraff y Cyngor ac ystod o opsiynau, gan gynnwys symud i gylch casglu tair wythnos ar gyfer gwastraff cartref, er mwyn helpu i fodloni gofynion Cynllun Strategol 2013-17 y Cyngor, Cynllun Arbedion Effeithlonrwydd 2015-18, Strategaeth Wastraff 2010-25, Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Cymru’n Un: Cenedl Un Blaned Llywodraeth Cymru a’i glasbrint casglu ar gyfer gwasanaethau rheoli gwastraff cynaliadwy.

15 Hefyd, cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad i roi adborth defnyddwyr ar y newidiadau arfaethedig. Cafwyd dros 2,500 o ymatebion i’r ymgynghoriad, gan gynnwys dros 600 gan Banel Dinasyddion y Cyngor. Mae dadansoddiad manwl o ganlyniadau’r ymgynghoriad wedi’i gynnwys yn yr achos busnes.

16 Mae dadansoddiad manwl o’r risgiau sy’n gysylltiedig â’r newid i’r gwasanaeth Casglu Gwastraff Gweddilliol, a’r camau a gynigir er mwyn lleihau’r risgiau, hefyd wedi’i gynnwys yn yr achos busnes, ynghyd ag esboniad o’r goblygiadau ariannol ac arbedion, ac asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb.

17 Mae achos busnes y Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi’i lunio ar sail yr un fframwaith a meini prawf â’r rhai a ddefnyddiwyd yn achos busnes y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gweddilliol. Mae canfyddiadau ac argymhellion adroddiad ymgynghorydd wedi’u cynnwys, ynghyd â chanlyniadau ymgynghoriad manwl, dadansoddiad manwl, crynodeb o ystyriaethau cynaliadwyedd ac asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb.

18 Ar ôl i’r Cyngor benderfynu cynnwys y newidiadau i’r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gweddilliol a’r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yng Nghynllun Arbedion Effeithlonrwydd 2015-18, aeth y Tîm Rheoli Corfforaethol a’r Cabinet ati i adolygu a herio’r achosion busnes unigol. Roedd y broses adolygu a herio’n drwyadl ac wedi’i dogfennu’n dda. Mae penderfyniadau allweddol ynglŷn â newidiadau i wasanaethau wedi’u cynnwys yn agendâu cyfarfodydd a dogfennau sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

19 Er bod y broses o adolygu a herio achosion busnes gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a’r Cabinet yn gadarn, mae rhywfaint o anghysondeb o ran sut a phryd mae’r pwyllgorau craffu’n cael eu cynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau ac, yn benodol, a ydynt yn gallu herio newidiadau arfaethedig i wasanaethau cyn i’r Cabinet gytuno arnynt. Cafodd y penderfyniad i newid y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gweddilliol ei wneud gan y Cabinet cyn i’r Pwyllgor Craffu Cymunedau gael y cyfle i herio’r model darparu newydd. Er i’r penderfyniad gael ei ‘alw i mewn’ yn y pen draw gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, nid oedd cyfle (amser) i’r Pwyllgor roi ei fewnbwn cyn i benderfyniad y Cabinet gael ei wneud.

20 Fodd bynnag, mae trefniadau craffu ar ôl penderfyniadau i herio'r angen i gynnwys newidiadau i wasanaethau yng Nghynllun Strategol 2013-17 a Chynllun Arbedion Effeithlonrwydd 2015-18, ac o'r achosion busnes unigol eu hunain, yn gadarn ac yn effeithiol. Cafodd cynigion i newid y Gwasanaethau Casglu Gwastraff Gweddilliol, Llyfrgelloedd a Rheoli Plâu eu cynnwys yng Nghynllun Arbedion Effeithlonrwydd 2015-18, a gyflwynwyd i gyfarfod anffurfiol y Cabinet a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn ystod 2014. Cynhaliwyd gweithdai i holl Aelodau'r Cyngor ystyried y cynigion. Yna, archwiliwyd y cynigion a barn yr Aelodau gan Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y tri phwyllgor craffu, cyn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a'r Cabinet.

21 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i wella cysondeb ac effeithiolrwydd ei drefniadau craffu ac mae wedi sefydlu Is-grŵp Adolygu Craffu sydd wrthi'n archwilio nifer o fodelau craffu amgen posibl.

22 Hefyd, mae'r Cyngor wrthi'n newid ei fframwaith rheoli perfformiad i gynnwys cyfarfodydd bob naw wythnos rhwng y Penaethiaid Gwasanaeth unigol, Deiliad y Portffolio, ac aelod o'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac, am gyfnod prawf, ddau Aelod o bwyllgor craffu. Mae'r trefniadau newydd yn cael eu cyflwyno er mwyn cyfuno goruchwylio newidiadau i wasanaethau a materion darparu â monitro perfformiad gwasanaethau ac er mwyn cynyddu rôl Aelodau craffu yn yr agweddau hyn ar fusnes y Cyngor.

## Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gynhwysfawr ac yn amrywiol

23 Un o brif nodau prosiect Ffordd Gwynedd yw sicrhau bod gan y Cyngor ddull effeithiol o gyfathrebu â rhanddeiliaid 'er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn o ran yr hyn sydd o bwys i bobl Gwynedd'. Datblygodd y Cyngor Strategaeth Ymgysylltu 2013-17 er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn.

24 Mae Strategaeth a Llawlyfr Ymgysylltu 2013-17 yn rhoi fframwaith o ran sut a phryd i ymgynghori. Mae'n rhoi arweiniad manwl ar bob agwedd ar ymgysylltu, gan gynnwys camau i'w cymryd i nodi'r mathau gwahanol o randdeiliaid perthnasol drwy fapio rhanddeiliaid.

25 Drwy gymhwyso'r egwyddorion a'r arweiniad yn Strategaeth a Llawlyfr Ymgysylltu 2013-17, mae'r Cyngor wedi cael barn ystod eang o randdeiliaid cyn gwneud penderfyniadau ar newid gwasanaethau. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad helaeth yn 2015 fel rhan o brosiect Her Gwynedd. Cafodd arolwg Her Gwynedd ei gynllunio a'i weithredu'n dda a rhoddodd gyfle i breswylwyr, busnesau a sefydliadau eraill wneud sylwadau ar 118 o newidiadau posibl i wasanaethau a'u blaenoriaethu cyn iddynt gael eu trafod a'u cwblhau gan y Cyngor. Cafwyd dros 2,100 o ymatebion i'r holiadur ac aeth dros 600 o aelodau'r cyhoedd i 32 o fforymau neu sesiynau galw heibio.

26 Dadansoddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad dros nifer o gategorïau, gan gynnwys dalgylchoedd ysgolion uwchradd, pobl ifanc (hyd at 25 oed), pobl hŷn (65 oed a throsodd) a phobl ag anableddau). Cysylltwyd â sefydliadau partner a grwpiau trydydd sector yn uniongyrchol gan eu gwahodd i gymryd rhan yn Her Gwynedd. Cafwyd dros 70 o ymatebion gan fusnesau, elusennau, cynghorau tref a chymuned a sefydliadau celfyddydau neu addysgol.

27 Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal ymgynghoriadau ar gynigion ar gyfer newidiadau unigol i wasanaethau'n effeithiol. Cyfeirir at yr ymgynghoriadau manwl ar y newidiadau arfaethedig i'r Gwasanaethau Casglu Gwastraff Gweddilliol a Llyfrgelloedd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Mae canlyniadau ymgynghoriadau Her Gwynedd a newidiadau unigol i wasanaethau wedi'u cyfeirio'n dda ac mae'n hawdd eu canfod ar wefan y Cyngor.

## Mae trefniadau i fonitro, asesu ac adrodd ar effaith newidiadau i wasanaethau'n parhau i gryfhau

28 Amlinellwyd y broses o gyflwyno trefniadau newydd i wella fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor ym mharagraff 22 uchod. Roedd trefniadau rheoli perfformiad blaenorol y Cyngor yn cynnwys gofyniad i adroddiadau monitro newidiadau i wasanaethau gael eu hadolygu gan nifer o grwpiau swyddogion, aelodau a swyddogion/aelodau, gan gynnwys 'Paneli Gwella'. O dan y fframwaith newydd sy'n cael ei gyflwyno nawr, bydd Paneli Gwella'n cael eu diddymu fel rhan o symleiddio trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Fel yr adroddwyd yn gynharach, bydd canlyniadau a pherfformiad ariannol newidiadau i wasanaethau'n cael eu hadrodd bob naw wythnos i grŵp o uwch swyddogion ac Aelodau. Yna, bydd yr adroddiadau'n cael eu hadolygu gan y Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r pwyllgor craffu.

29 Roedd y gofyniad i fonitro effaith newidiadau i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gweddilliol yn rhan annatod o'r achos busnes newid i wasanaeth. Er mwyn lleihau unrhyw aflonyddwch ar breswylwyr, cyflwynwyd newidiadau i wasanaethau fesul cam. Cyflwynwyd y cylch casglu gwastraff tair wythnos yn rhanbarth Dwyfor y Sir ym mis Hydref 2014. Sefydlwyd dau dîm – y Tîm Gweithredol a'r Tîm Ymgysylltu – yn yr Adran Priffyrdd a Threfol er mwyn gweithredu a monitro effaith newidiadau i wasanaethau.

30 Cyflwynwyd adroddiad y Cyngor sy'n crynhoi effaith y newidiadau i wasanaethau ar breswylwyr Dwyfor i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Chwefror 2015. Mae'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad manwl o'r gwelliannau ariannol a pherfformiad a gyflawnwyd o gyflwyno'r gwasanaeth newydd, gan gynnwys gostyngiad o 22% yn y gwastraff gweddilliol a gesglir yn Nwyfor ac arbed £100,000 i'r Cyngor o ganlyniad i hynny mewn costau tirlenwi blynyddol. Mae adroddiad y Cyngor hefyd yn cynnwys canlyniadau arolwg cyfranogiad preswylwyr Dwyfor a gynhaliwyd fel rhan o Raglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau Llywodraeth Cymru.

31 Mae'r Cyngor hefyd yn ymroddedig i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gynnal asesiadau cydraddoldeb ac effaith ac i fonitro effeithiau newidiadau i wasanaethau ar grwpiau gwarchodedig. Mae Strategaeth Mwy na Llyfrau'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cynnwys trefniadau i fonitro ac adolygu effeithiau'r newidiadau i wasanaethau. Mae'r trefniadau'n cynnwys y gofyniad am Brif Swyddog i adolygu materion cydraddoldebau.

32 Mae trefniadau monitro hefyd wedi'u cyflwyno er mwyn mesur effeithiau newidiadau i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gweddilliol ar y grwpiau gwarchodedig a nodwyd yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. O ganlyniad i'r adborth, gwnaed newidiadau i'r gwasanaeth er mwyn adlewyrchu'n well anghenion pobl ifanc/teuluoedd a'r henoed a phobl ag anableddau. Mae asesiad cydraddoldebau ledled y sir i fesur effaith newidiadau i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff Cartref yn y flwyddyn lawn gyntaf yn yr arfaeth ar gyfer 2017.

## Mae hunanasesiadau blynyddol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar risg ac yn hyrwyddo gwelliant parhaus

33 Mae asesiad blynyddol y Cyngor o'i fframwaith llywodraethu wedi gwella'n sylweddol ers sefydlu'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu (y Grŵp) yn 2013. Mae'r Grŵp yn cynnwys nifer o uwch swyddogion gan gynnwys y Prif Weithredwr, Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

34 Prif amcan y Grŵp yw cynnal trosolwg parhaus o'r holl faterion llywodraethu, gan gynnwys rheoli'r asesiad blynyddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae'r Grŵp yn asesu ac yn sgorio effaith ac effeithiolrwydd y 33 o elfennau yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor yn flynyddol. (1 – effaith isel/aneffeithiol iawn i 5 – effaith uchel/effeithiol iawn). Mae'r asesiad hefyd yn ystyried barn nifer o ffynonellau allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, am drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

35 Mae canlyniadau'r asesiad yn cael eu hadrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses ar gyfer llunio, adolygu a chraffu ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor. Ni nodir unrhyw elfennau o fframwaith llywodraethu'r Cyngor fel blaenoriaethau uchel iawn (ar raddfa o isel iawn i uchel iawn) ar gyfer gwella yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2015-16. Fodd bynnag, mae deg maes llywodraethu wedi'u categoreiddio fel blaenoriaethau uchel ar gyfer gwella, gan gynnwys trefniadau craffu, rheoli perfformiad a rheoli risg.

36 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cynnwys crynodeb o'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd er mwyn gwella'r meysydd â blaenoriaeth uchel. Cyfeiriwyd at adolygiad y Cyngor a'r gwelliannau dilynol i strwythur a gweithrediad y broses graffu a'r fframwaith rheoli perfformiad yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru